
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Craig y Fron, Y Bala

**HAMDDENOL**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 4.5km (2.8 milltir)
- Hyd: 2 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.


eryri.llyw.cymru




Gadewch faes parcio Llyn Tegid a dilynwch y briffordd tuag at Y Bala am oddeutu 500m. Cymerwch y troad cyntaf i'r chwith tuag at y cwrs golff. Mae'r ffordd yn esgyn yn raddol ac yn mynd heibio tai.




Erbyn hyn mae'r ffordd yn culhau ac yn troi'n ffordd wledig gul. Ewch heibio'r mynedfeydd i Fronderw a Maes Awelon.




Ewch yn eich blaen i ben y bryn. Mwynhewch yr olygfa o fynyddoedd y Berwyn. Sylwch ar y rhwydwaith o ffermydd yn y dyffryn a choetir pori hynafol ar y bryn ar eich dde.




Dilynwch y llwybr i lawr gan fynd heibio mynedfa'r clwb golff. Dilynwch y trac i Hendre-ddu. Ewch heibio tŷ a chytiau cŵn gan gadw i'r dde o'r ffens. Croeswch ddwy gamfa a dilynwch y trac lle mae gwrychoedd cyll tal. Byddwch yn cyrraedd adeilad adfeiliedig.




Ewch yn syth trwy'r bwlch i'r cae nesaf a dilynwch y ffin uchaf i lawr i chwarel gerrig segur Craig y Fron, gyda'i hogof 400m o hyd sy'n cael ei chynnal gan bileri cerrig trwchus. Croeswch y gamfa a dilynwch y ffens yn ôl tuag at dref Y Bala.




Croeswch gamfa arall a dilynwch y lôn laswelltog. Trowch i'r chwith ac arhoswch i edmygu bwthyn Pen-rhiw, cartref Betsi Cadwaladr, nyrs leol a fu'n gweithio gyda Florence Nightingale. Dilynwch arwydd y llwybr troed i'r dde, croeswch y gamfa a pharhewch ar hyd gwaelod y cae. Ewch trwy'r giât sy'n arwain at y briffordd a dychwelyd i dref Y Bala.